



Croeso

Helo a chroeso i rifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr

Mae gan y rhifyn hwn rywfaint o wybodaeth bwysig ynghylch adolygiad y rheolau gweithio oddi ar y gyflogres, y cyfraddau diweddaraf ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Thaliadau Statudol, diweddariad ar gyfer rhoi gwybod am dreuliau a buddiannau, a nodyn atgoffa amserol ynghylch hysbysu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae yna arolwg cyflym i fusnesau bach ei gwblhau. Drwy'r arolwg gallwch roi adborth gwerthfawr i ni. Hefyd, ceir twlsyn digidol newydd ar gyfer busnesau sy'n allforio nwydau o farchnad y DU yn ogystal â gwybodaeth ddefnyddiol am Bensiynau'r Gweithle, Benthyciadau Myfyrwyr/Ôl-raddedig a'r diweddaraf am Absenoldeb a Thâl Rhieni mewn Profedigaeth.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Bwletin y Cyflogwr i roi gwybod i chi am gynhyrchion newydd a newidiadau a allai effeithio arnoch, a rhoi gwybodaeth bellach i chi os bydd ei hangen arnoch. Gyda hynny mewn golwg, hoffwn eich annog hefyd i gofrestru i gael e-bost hysbysu oddi wrthym bob tro y cyhoeddir rhifyn newydd o Fwletin y Cyflogwr.

Nid yw'r system e-byst hysbysu ynghlwm wrth gyfeirnod TWE mwyach. Mae hyn yn golygu nid cyflogwyr yn unig sy'n gallu cofrestru, a does dim cyfyngiadau ar nifer yr unigolion fesul cwmni a all gael yr e-byst hysbysu.

Gallwch wneud yn siŵr nad ydych yn methu diweddariadau yn y dyfodol drwy gofrestru i gael [e-byst hysbysu newydd](#). Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter [@HMRC.gov.uk](#)

Ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol arall yw'r diweddariadau i asiantau – bydd y rhifyn nesaf o'r [diweddariadau i asiantau](#) ar gael cyn bo hir a bydd yn rhoi arweiniad i asiantau ac ymgynghorwyr treth.

Ac yn olaf, ein nod yw gallu rhoi gwybodaeth glir, gyson ac amserol, sy'n addas i gyflogwyr, ac sy'n eich helpu i gyflawni'ch rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr, neu os hoffech iddo ymdrin â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn scott.milne@hmrc.gov.uk Mae croeso mawr i'ch adborth bob amser.

Scott

Scott Milne
Golygydd

Cynnwys

- 2 Adolygiad o'r rheolau gweithio oddi ar y gyflogres o fis Ebrill 2020 ymlaen
- 2 Trothwyon CYG a chyfraddau Taliadau Statudol 2020-2021
- 3 Dyddiad cau ar gyfer talu drwy ddull electronig yn syrthio ar benwythnos
- 3 Benthyciadau Myfyrwyr a Benthyciadau Ôl-raddedig
- 3 Byddwch yn barod ar gyfer y cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2020
- 4 Hysbysu ar ddiwedd y flwyddyn 2020
- 4 Absenoldeb a Thâl Rhieni mewn Profedigaeth
- 5 Paratoi ar gyfer newidiadau i Lwfans Cyflogaeth
- 5 Hysbysiad Cod P9

- 6 Offer TWE Sylfaenol - ar eu newydd wedd
- 6 Nodyn atgoffa ynghylch Buddiannau gyda Lwfansau ar ffurf Arian, Pecynnau Buddiannau Hyblyg a'r Cynllun Aberthu Cyflog
- 7 Rhoi gwybod am dreuliau a buddiannau
- 7 Arolwg busnesau bach - dweud eich dweud wrth ABAB
- 8 Ymwelwyr Busnes Tymor Byr
- 8 Buddiannau Pitw
- 9 Cerbydau allyriadau isel iawn a newidiadau ar eithriadau i dreth car cwmni - Atodiad Diesel
- 10 Newidiadau i'r modd y caiff Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol eu trin ar gyfer cerbydau brys - trefniadau trosiannol yn dod i ben ar 6 Ebrill 2020
- 11 Problemau ynghylch adnabod unigolion ar secondiad i'r DU ar y gyflogres, a hynny ar gam

- 11 Tâl Cuddiedig
- 11 Cyfrif Treth Busnes - data 2013-2014 i gael eu dileu
- 12 Cofrestru fel cyflogwr
- 12 Nodyn atgoffa i gyflogeion ddiweddarau eu Cyfrif Treth Personol
- 12 Mesur cyllideb - Tystebau Chwaraeon a Thaliadau Terfynu
- 13 Y diweddaraf am Daliadau Terfynu: Diweddariad i arweiniad EIM12965
- 13 Newyddion gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- 14 Sut mae gweithlu sy'n heneiddio'n effeithio arnoch chi?
- 14 Newidiadau sydd ar y gweill i Gyfraith Cyflogaeth
- 15 Llyfryn 480 ar-lein
- 15 Twlsyn digidol newydd gan yr Adran ar gyfer Masnach Ryngwladol

Adolygiad o'r rheolau gweithio oddi ar y gyflogres o fis Ebrill 2020 ymlaen

Mae'r llywodraeth wedi comisiynu [adolygiad](#) o'r diwygiad i'r rheolau gweithio oddi ar y gyflogres sydd i ddod. Bydd yr adolygiad yn ystyried a oes unrhyw gamau ychwanegol y gall y Llywodraeth eu cymryd er mwyn sicrhau'r gweithrediad didrafferth a llwyddiannus o'r diwygiad, sydd i fod i ddod i rym ar 6 Ebrill 2020.

Mae'r diwygiad, a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2018, wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â rheolau gweithio oddi ar y gyflogres drwy wneud sefydliadau canolog a mawr yn y sector preifat a'r trydydd sector yn gyfrifol am benderfynu ar statws treth contractwyr. Ar ôl ymgynghoriad, cyhoeddodd y llywodraeth na fyddai'r diwygiad yn berthnasol i ymrwymadau â busnesau bach. Ers hynny, mae Cyllid a Thollau EM (CThem) wedi cynnal ac ymateb i ymgynghoriad pellach ar fanylion y diwygiad, a chyhoeddwyd deddfwriaeth ddrafft [ar GOV.UK](#) ym mis Gorffennaf 2019.

Addysg a Chymorth

I roi rhagor o gymorth i fusnesau, ar 22 Awst 2019, cyhoeddodd CThem [arweiniad](#) ar y camau y gallai busnesau a chyfryngwyr eu cymryd i baratoi.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi arweiniad technegol drafft erbyn hyn ar gyfer y diwygiad i'r rheolau gweithio oddi ar y gyflogres yn y Llawlyfr Statws Cyflogaeth (ESM), er mwyn rhoi manylion pellach ar sut y gweithredir y rheolau o 6 Ebrill ymlaen. Mae rhagor o wybodaeth [ar GOV.UK](#).

Mae CThem wedi cyhoeddi [taflen wybodaeth](#) ar gyfer contractwyr y gallwch ei lawrlwytho a'i rhoi i gontractwyr sydd â chwestiynau am y diwygiad.

Rydym hefyd yn cynnal cyfres o weminarau sy'n rhoi diweddariad i'r diwygiad i'r rheolau gweithio oddi ar y gyflogres o fis Ebrill 2020, ar gyfer ymrwymadau â'r sector cyhoeddus a sefydliadau canolog a mawr.

Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Mercher 19 Chwefror 12.00
- Dydd Mercher 26 Chwefror 12.00
- Dydd Mawrth 17 Mawrth 12.00
- Dydd Iau 26 Mawrth 12.00.

Gallwch ymrestru ar gyfer y [gweminarau hyn yma](#).

Mae ein gweminarau yn rhan o becyn addysg a chymorth ehangach sydd ar gael gan CThem sy'n cynnwys ysgrifennu'n uniongyrchol at gyflogwyr a hurwyr dan sylw gyda rhagor o wybodaeth.

Gwelliannau i'r gwasanaeth wirio statws cyflogaeth ar gyfer treth ac arweiniad ategol

Ar 25 Tachwedd 2019, ar ôl gwaith helaeth gyda dros 300 o randdeiliaid, gwnaethom gyhoeddi welliannau i'r gwasanaeth CEST ac arweiniad ategol. Dyma'r cysylltiadau ar gyfer y [twlsyn CEST](#) a'r [arweiniad](#).

Trothwyon CYG a chyfraddau Taliadau Statudol 2020-2021

Trothwyon Yswiriant Gwladol 2020-2021

Cadarnhaodd y llywodraeth ar 30 Ionawr y bydd tua 31 miliwn o drethdalwyr yn elwa o doriad yn eu treth, wrth i drothwy cyfraniadau Yswiriant Gwladol godi i £9,500 y flwyddyn. Bydd cyflogai nodweddiadol yn arbed tua £104 yn 2020-21, tra y bydd pobl hunangyflogedig, sy'n talu cyfradd is, yn cael bil £78 yn is. Bydd yr holl drothwyon eraill yn codi â chwyddiant, ar wahân i'r trothwy CYG uchaf a fydd yn aros wedi'u rhewi ar £50,000, fel y datganwyd yng Nghyllideb 2018.

Ni fydd y newidiadau i'r trothwyon yn effeithio ar hawl y rhai sy'n ennill cyflog isel i fudd-daliadau cyfraniadol, fel Pensiwn y Wladwriaeth, gyda'r Terfyn Enillion Isaf a'r Trothwy Elw Bychan. Dros y rhain, mae unigolion yn dechrau adeiladu hawl i fudd-daliadau cyfraniadol sy'n codi â chwyddiant.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [GOV.UK](#).

Taliadau Statudol 2020-2021

Mae'r Taliadau Statudol arfaethedig hefyd wedi'u [cyhoeddi](#).

Dyddiad cau ar gyfer talu drwy ddull electronig yn syrthio ar benwythnos

Ym mis Chwefror, mae'r dyddiad cau ar gyfer talu drwy ddull electronig, sef yr 22ain, yn syrthio ar ddydd Sadwrn. Felly, er mwyn sicrhau bod eich taliad ar gyfer y mis hwnnw yn ein cyrraedd mewn pryd, bydd angen bod gennych arian wedi'i glirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn yr 21ain, oni bai eich bod yn gallu trefnu talu gan ddefnyddio'r gwasanaeth Taliadau Cyflymach.

Cofiwch mai'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich taliadau'n cael eu gwneud mewn pryd, ac os yw'ch taliad yn hwyr mae'n bosibl y byddwn yn codi cosb arnoch.

Er mwyn eich bod yn gwybod pa ddyddiad i gychwyn eich taliad, bydd yn rhaid i chi gysylltu â'ch banc/cymdeithas adeiladu mewn da bryd cyn gwneud eich taliad er mwyn gwirio terfynau trafodion unigol, terfynau gwerth dyddiol a thorbwyntiau.

Mae rhagor o wybodaeth am ein talu drwy ddull electronig ar gael [ar GOV.UK](#).

Benthyciadau Myfyrwyr a Benthyciadau Ôl-raddedig

Trothwyon Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig ar gyfer mis Ebrill 2020

Mae'r trothwyon ar gyfer Benthyciadau Myfyrwyr Cynllun 1 a Chynllun 2 yn cynyddu o 6 Ebrill 2020 ymlaen. Mae'r Adran Addysg wedi cadarnhau y bydd y trothwyon yn cynyddu i'r canlynol:

- Cynllun 1 – £19,390
- Cynllun 2 – £26,575.

Bydd didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr yn cael eu cyfrifo ar 9% ar gyfer benthyciadau Cynllun 1 a Chynllun 2.

- Bydd y trothwy **Benthyciad Ôl-raddedig** yn parhau i fod yr un fath, sef £21,000

Bydd didyniadau Benthyciadau Ôl-raddedig yn cael eu cyfrifo ar 6%.

Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig – Hysbysiad Dechrau (SL1/PGL1)

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd y camau cywir i ddechrau didyniadau Benthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig cyn gynted â phosibl a'ch bod yn cofnodi'r didyniadau'n gywir ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn.

Bydd hyn yn sicrhau nad yw'ch cyflogai'n talu mwy na llai na'r hyn a ddylai.

Os cewch hysbysiad dechrau Benthyciad Myfyriwr a/neu hysbysiad dechrau Benthyciad Ôl-raddedig (SL1/PGL1) oddi wrth CThEM, mae'n bwysig eich bod yn gwirio ac yn defnyddio'r fersiwn gywir o'r canlynol:

- y math o fenthyciad/gynllun ar yr hysbysiad dechrau.
- y dyddiad dechrau a ddangosir ar yr hysbysiad ac yn tynnu didyniadau o'r diwrnod cyflog nesaf.

Os yw'r enillion o dan y trothwyon ar gyfer Benthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig, dylech ddiweddarau cofnod cyflogres y cyflogai i ddangos bod ganddo Fenthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig a chyflwyno'r hysbysiad dechrau. Dylai didyniadau barhau hyd nes y bydd CThEM yn eich hysbysu i roi'r gorau i'w didynnu.

Mae rhagor o wybodaeth [ar GOV.UK](#).

Cofiwch:

1. gwirio'ch cyfrif ar-lein ar gyfer hysbysiadau dechrau a/neu stopio Benthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig.
2. rhoi gwybod i ni os yw'ch cyfeiriad e-bost neu'ch cyfeiriad gohebu wedi newid.

Byddwch yn barod ar gyfer y cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2020

Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol, sef yr isafswm statudol ar gyfer gweithwyr 25 oed a hŷn, yn cynyddu 6.2% i £8.72 yr awr ar 1 Ebrill 2020.

Bydd cyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr iau hefyd yn cynyddu uwchlaw chwyddiant.

Wrth i'r isafswm cyflog gynyddu, bydd mwy o gyflogwyr nag erioed yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol, gan gynnwys rhai o'r rheini sy'n talu uwchlaw'r isafswm ar hyn o bryd.

Gallwch gael golwg ar y [cyfraddau newydd](#) i weld a ydynt yn effeithio ar eich busnes.

I gael rhagor o wybodaeth am dalu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn gywir, gallwch gofrestru ar gyfer un o'n [gweminarau byw](#) ym mis Mawrth.

Hysbysu ar ddiwedd y flwyddyn 2020

Mae'n amser paratoi i wneud eich Cyflwyniad Taliadau Llawn (FPS) olaf neu'ch Crynodeb o Daliadau'r Cyflogwr (EPS) olaf ar gyfer y flwyddyn

Mae angen i'ch FPS neu'ch EPS olaf ar gyfer y flwyddyn (hyd at a chan gynnwys 5 Ebrill 2020) gynnwys dangosydd i nodi eich bod yn gwneud y cyflwyniad terfynol. Mae hyn yn rhoi gwybod i ni eich bod wedi anfon popeth yr oeddech yn disgwyl ei anfon, ac y gallwn derfynu'n cofnodion ar eich cyfer chi a'ch cyflogeion.

Ni fydd ambell feddalwedd fasnachol y gyflogres yn caniatáu i chi roi'r dangosydd ar FPS. Os yw hynny'n wir, anfonwch eich FPS olaf ac yna anfonwch EPS gyda'r dangosydd wedi'i dicio. Gallwch hefyd anfon EPS gyda'r dangosydd wedi'i dicio os gwnaethoch anghofio rhoi'r dangosydd ar eich cyflwyniad FPS olaf ar gyfer y flwyddyn dreth.

Hefyd, mae'n rhaid i chi roi P60 i'ch cyflogeion os oeddent yn eich cyflogaeth ar 5 Ebrill 2020. Mae gennych tan 31 Mai 2020 i wneud hyn.

Os nad ydych yn mynd i dalu neb eto yn ystod y flwyddyn dreth hon, cofiwch anfon EPS gyda'r dangosydd wedi'i dicio i ddangos na wnaethoch dalu neb yn ystod y cyfnod cyflog olaf ac i ddangos mai dyma'r cyflwyniad terfynol. Mae gennych tan 19 Ebrill 2020 i wneud hyn, ond cewch neges gan y Gwasanaeth Hysbysu Generig os byddwch yn ei gyflwyno ar ôl 11 Ebrill 2020.

Mae arweiniad ar sut i gyflwyno'r wybodaeth hon yn llwyddiannus [ar gael ar GOV.UK](#).

Absenoldeb a Thâl Rhieni mewn Profedigaeth

Trosolwg:

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno hawl newydd i drefniadau Absenoldeb a Thâl Rhieni mewn Profedigaeth o fis Ebrill 2020 ymlaen. Bydd hyn yn rhoi hawl i rieni sy'n colli plentyn neu'n dioddef marw-enedigaeth cael pythefnos i ffwrdd o'r gwaith o ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth. Bydd hawl gan rieni cymwys i gael tâl statudol am bythefnos.

Gosododd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y rheoliadau i roi'r hawl hwn ar waith ym mis Ionawr 2020. Yn amodol ar gytundeb y Senedd, bydd yr hawliad newydd yn berthnasol i farwolaethau neu enedigaethau marw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2020.

Mae crynodeb lefel uwch o ddwy agwedd allweddol ar y polisi wedi'i nodi isod. Bydd arweiniad llawn ar gael maes o law.

Diffiniad o riant mewn profedigaeth:

Bydd amrywiaeth eang o rieni dan sylw, gan gynnwys rhieni mabwysiadol, rhieni plentyn sydd wedi'i eni i fam fenthyg, rhieni sy'n maethu er mwyn mabwysiadu, yn ogystal ag unigolion sydd wedi bod yn gofalu am blentyn yn eu cartref eu hunain, yn ddi-dor am gyfnod o 4 wythnos sy'n dod i ben gyda dyddiad y farwolaeth, ac â chyfrifoldeb dros ofal y plentyn yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gofynion o ran rhybudd a thystiolaeth:

Absenoldeb Rhieni mewn Profedigaeth

Ni fydd angen i gyflogai roi rhybudd ysgrifenedig am Absenoldeb Rhieni mewn Profedigaeth. Bydd hyd y rhybudd sydd ei angen am absenoldeb yn amrywio yn ôl a yw'r cyflogai'n bwriadu bod yn absennol o fewn yr wyth wythnos gyntaf yn dilyn y farwolaeth (Cyfnod A), neu ar ôl hynny (Cyfnod B).

- Yn achos absenoldeb yng Nghyfnod A, bydd angen i'r cyflogai roi gwybod i'w gyflogwr cyn y byddai disgwyl iddo ddechrau gwaith ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.
- Yn achos absenoldeb yng Nghyfnod B, bydd angen i'r cyflogai roi rhybudd o leiaf wythnos cyn dechrau cyfnod yr absenoldeb.

Tâl Statudol Rhieni mewn Profedigaeth (SPBP)

Mae'n rhaid i gyflogai roi rybudd ysgrifenedig ar gyfer SPBP cyn pen 28 diwrnod yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos y mae'r SPBP yn cael ei hawlio ynddi, gan nodi dyddiadau'r cyfnod(au) y mae'r hawliad yn berthnasol iddynt.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid i gyflogai hefyd roi'r wybodaeth benodol hon i'r cyflogwr yn ysgrifenedig:

- Enw'r cyflogai
- Dyddiad marwolaeth y plentyn
- Datganiad bod y person yn bodloni'r amodau o ran bod yn gymwys.

Yn wahanol i absenoldeb, nid yw hyd y rhybudd ar gyfer SPBP yn amrywio yn ôl pa bryd mae'r hawl yn cael ei gymryd.

Dim ond i Brydain Fawr mae Deddf Rhieni mewn Profedigaeth (Absenoldeb a Thâl) 2018 yn berthnasol. Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth i gyflwyno absenoldeb a thâl rhieni mewn profedigaeth wedi'i chyflwyno yng Ngogledd Iwerddon ac felly ni fydd y mesur yn berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Paratoi ar gyfer newidiadau i Lwfans Cyflogaeth

Mae'n rhaid i gyflogwyr wneud gwiriadau ychwanegol i weithio allan a ydynt yn gymwys. Mae angen cyflwyno hawliad newydd am Lwfans Cyflogaeth unwaith bob blwyddyn dreth, gan na fydd hawliadau'n cael eu hadnewyddu yn awtomatig bob blwyddyn treth.

Mae rhagor o wybodaeth [ar gael yma](#).

Gwrio trothwy Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 (eilaid) y cyflogwr

- Dim ond os bydd cyfanswm y rhwymedigaeth gymwys o ran CYG Dosbarth 1 (eilaid) y cyflogwr yn is na £100,000 yn y flwyddyn dreth flaenorol y gellir hawlio Lwfans Cyflogaeth
- Os oes gennych sawl cynllun TWE neu os ydych yn rhan o grŵp o gwmnïau cysylltiedig, mae angen ychwanegu rhwymedigaethau (CYG) Dosbarth 1 (eilaid) pob cwmni, a/neu gynlluniau TWE, er mwyn asesu cymhwystera ar gyfer Lwfans Cyflogaeth

- Dim ond unwaith mae modd hawlio'r lwfans ar draws eich holl gynlluniau TWE a chwmnïau cysylltiedig. Bydd angen i chi benderfynu pa un cynllun TWE i osod yr hawliad yn ei erbyn.

Drwy dargedu'r lwfans fel hyn, mae'n golygu y bydd Lwfans Cyflogaeth yn cael ei weithredu fel **Cymorth Gwladwriaethol De Minimis**.

Bydd rheolau cymorth gwladwriaethol de minimis yn berthnasol os bydd busnesau'n cynnal gweithgarwch economaidd – mae hyn yn golygu darparu nwyddau neu wasanaethau i'r farchnad, bydd hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o fusnesau.

Bydd angen gwiriadau ychwanegol, os yw busnesau wedi cael cymorth gwladwriaethol de minimis o ffynonellau eraill

Mae'n rhaid i gyflogwyr sicrhau nad ydynt yn mynd dros y trothwy perthnasol ar gyfer eu sector busnes drwy gael Lwfans Cyflogaeth.

Hawlio Lwfans Cyflogaeth

Bydd Lwfans Cyflogaeth yn parhau i gael ei hawlio drwy'ch EPS, drwy wneud yr hawliad rydych yn cadarnhau eich bod wedi asesu'ch cymhwystera ar gyfer Lwfans Cyflogaeth ac na fydd yn uwch na'r trothwy cymorth gwladwriaethol de minimis.

Bydd angen i chi roi gwybod i weinyddwr eich cyflogres os ydych yn gymwys neu beidio.

Os yw'ch busnes yn ymgymryd â gweithgarwch economaidd, bydd angen i chi ddarparu'ch sector(au) busnes ar yr EPS – Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Dyframaethu, Cludiant Cludo Llwythi ar y Ffyrdd neu Ddiwydiannol ar gyfer pawb arall.

Os nad yw'ch busnes yn ymgymryd â gweithgarwch economaidd – bydd angen i chi roi gwybod nad yw rheolau cymorth gwladwriaethol yn gymwys.

Hysbysiad Cod P9

Bydd hysbysiadau e-bost o Hysbysiad Cod P9 yn cael eu hanfon yr wythnos yn dechrau 10 Chwefror 2020 hyd at 10 Mawrth 2020 yn nodi bod modd bwrw golwg dros y cod treth ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau 6 Ebrill 2020 ar-lein. Wrth fewngofnodi i'r cyfrif ar-lein i fwrw golwg dros yr hysbysiadau P9, gwnewch yn siŵr bod y flwyddyn dreth gywir yn cael ei dewis o'r gwymplen, 2020-2021.

Os nad yw'r hysbysiadau P9 yn dangos o hyd, allgofnodwch a mewngofnodwch yn ôl i'r cyfrif y diwrnod canlynol. Dylai hyn ganiatáu i'r hysbysiadau P9 gael eu gweld ar-lein. Disgwyliwn i hysbysiadau cod P9 ar bapur gyrraedd cyflogwyr ar neu oddeutu 21 Mawrth 2020.

Os na chewch eich hysbysiadau P9 ar bapur mewn da bryd ar gyfer y cyfnod cyflog cyntaf ar neu ar ôl 6 Ebrill 2020, gallwch ofyn am gael copïau dyblyg drwy ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900.

Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas â chynllun cyflogwr llawn mae modd gwneud cais am hysbysiad dyblyg. Nid yw ar gael ar gyfer codau treth unigol.

Byddwn yn delio â'ch cais cyn gynted ag y bo modd, ond dylech aros 14 diwrnod gwaith cyn cysylltu â'r Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg eto. Os yw'ch cais yn golygu newid y math o gyfrwng, (er enghraifft o fod ar bapur i fod ar-lein), caniatewch bum diwrnod gwaith ychwanegol i roi amser i'n systemau ddiweddarau.

Gan na fydd trothwyon a chyfraddau Treth Incwm ar gyfer Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu cwblhau tan fis Mawrth, caiff codau treth eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau a throthwyon 2019-2020 ar gyfer pob rhan o'r DU.

Ar ôl cyhoeddiadau'r Gyllideb efallai y bydd angen i CThEM gynnal ymarfer ail-godio i gynnwys newidiadau i gyfraddau neu drothwyon. Os mai dyma'r achos bydd angen anfon unrhyw newidiadau at gyflogeion ar P6b. Dylid ond rhoi'r codau hyn ar waith ar neu ar ôl y dyddiad a ddangosir ar y P6b. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y man.

Offer TWE Sylfaenol - ar eu newydd wedd

Bydd diweddariad i'r Offer TWE Sylfaenol (BPT) yn cael ei ryddhau ar ddiwedd mis Mawrth ar gyfer blwyddyn dreth 2020-2021. Mae'n bwysig eich bod yn diweddarau BPT a'ch bod yn defnyddio fersiwn 20.0 ohono o 6 Ebrill 2020 ymlaen. I ddiweddarau neu wirio am ddiweddariadau, dylech ddewis yr opsiwn "Gwirio nawr" yn adran ddiweddarau'r gosodiadau yng nghornel dde uchaf y twlsyn. Argymhellwn eich bod hefyd yn gadael yr opsiwn diweddarau awtomatig ymlaen.

Gall cwsmeriaid newydd lawrlwytho BPT ar [GOV.UK](https://www.gov.uk) a hefyd dod o hyd i help cynhwysfawr ar sut i osod y feddalwedd hon.

Ar ôl y rhyddhad ym mis Mawrth 2020, dylai'r sawl sy'n defnyddio cyfrifiaduron Mac fod yn ymwybodol y bydd BPT yn cael ei ddiweddarau a'i osod yn wahanol. Caiff defnyddwyr wybod pan fydd fersiwn newydd ohono ar gael. Yn hytrach na chael diweddariad yn awtomatig, bydd angen dilyn cysylltiad er mwyn lawrlwytho'r fersiwn newydd lawn ar gyfer macOS.

Er mwyn gosod BPT wedi hynny, bydd angen i chi agor delwedd y rhaglen osod ac yna "llusgo a gollwng" yr eicon BPT i mewn i'ch Ffolder cymwysiaid neu Applications. Rydym yn argymhell eich bod yn cadw copi wrth gefn o'ch cronfa ddata BPT cyn lawrlwytho a gosod fersiwn newydd ohono.

Ar ôl y rhyddhad ym mis Mawrth 2020, bydd cyflogwyr sy'n defnyddio BPT at ddibenion y gyflogres nawr yn gallu argraffu slipiau cyflog eu cyflogeion. Gallwch eu cynhyrchu a'u hargraffu yn yr un ffordd â ffurflen P60 sydd eisoes yn BPT.

Nodyn atgoffa ynghylch Buddiannau gyda Lwfansau ar ffurf Arian, Pecynnau Buddiannau Hyblyg a'r Cynllun Aberthu Cyflog

Dyma nodyn i'ch atgoffa o'r hyn sydd wedi'i amlygu mewn rhifynnau blaenorol o Fwletin y Cyflogwr: os ydych yn cynnig lwfansau ar ffurf arian, pecynnau buddiannau hyblyg gydag opsiwn arian parod neu aberthu cyflog i'ch cyflogeion, yn gyfnewid am fuddiannau, newidiodd y rheolau ar gyfer y mathau hyn o fuddiannau ar 6 Ebrill 2017, fel a ganlyn:

1. Erbyn hyn, caiff pob buddiant ei brisio yn ôl pa un bynnag o'r canlynol sydd uchaf: yr arian parod a ildwyd, neu'r gwerth o dan y rheolau traddodiadol.
2. Mae pob buddiant nad oedd yn drethadwy o'r blaen nawr yn drethadwy, ac yn cael ei brisio yn ôl yr arian a ildwyd.
3. Nid yw hyn yn effeithio ar geir sydd ag allyriadau o 75g CO₂/km neu lai, pensiynau, cyngor ynghylch pensiynau, gofal plant na'r cynllun Beicio i'r Gwaith.

Cafodd trefniadau a ddechreuodd ar neu cyn 5 Ebrill 2017 eu trin – o ran treth – fel yr oeddent o'r blaen, hyd at ba un bynnag o'r canlynol a ddaeth gyntaf: adnewyddu'r trefniant, neu ei newid. Symudodd y rhan fwyaf o fuddiannau cyn 6 Ebrill 2017 i'r rheolau newydd ar 6 Ebrill 2018.

Caiff llety a cheir cyn 6 Ebrill 2017 eu symud i'r rheolau newydd ar ba un bynnag o'r canlynol a ddaw gyntaf: adnewyddu, newid, neu fis Ebrill 2021. Mae gan ffioedd ysgol cyn 6 Ebrill 2017 reolau arbennig, ond bydd pob un yn symud i'r rheolau newydd o fis Ebrill 2021 ymlaen.

Os oes gennych gyflogeion a allai fod wedi dechrau trefniant ar gyfer ceir, llety neu ffioedd ysgol cyn mis Ebrill 2017, mae'n rhaid i chi adolygu'r contractau hyn cyn mis Ebrill 2021.

Rhoi gwybod am dreuliau a buddiannau

Os ydych wedi talu buddiannau i unrhyw gyflogeion, mae'n rhaid i chi anfon ffurflenni P11D a P11D(b) i CThEM erbyn 6 Gorffennaf 2020, fan bellaf, neu gallech gael cosb. Mae CThEM yn codi cosbau ar sail fisol, ac yn anfon hysbysiadau o gosb bob chwarter hyd nes y byddwch yn cyflwyno'ch datganiad.

Mae rhagor o wybodaeth am roi gwybod am dreuliau a buddiannau [wedi'i chyhoeddi ar GOV.UK](#).

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, byddwch yn gallu dechrau cyflwyno'ch datganiad P11D a P11D(b) o ran CYG Dosbarth 1A y Cyflogwr ar gyfer blwyddyn adrodd 2019-2020. Rydym yn argymhell eich bod yn cyflwyno gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol, gan ei fod yn fwy diogel, yn gynt ac yn haws na chyflwyno ar bapur:

- [Gwasanaeth TWE Ar-lein CThEM](#)
- [Gwasanaeth Ar-lein Treuliau a Buddiannau Diwedd Blwyddyn CThEM](#)
- [meddalwedd fasnachol y gyflogres](#).

Efallai bydd rhaid i chi roi gwybod i CThEM os nad oes datganiad i'w gyflyno ar gyfer CYG Dosbarth 1A. Bydd ond rhaid i chi wneud hyn os cewch ddatganiad P11D(b) o ran CYG Dosbarth 1A, hysbysiad electronig i gyflwyno datganiad P11D(b) neu nodyn atgoffa i gyflwyno P11D(b), ac nid ydych wedi gwneud taliadau o ran treuliau neu fuddiannau i gyflogeion.

Talu buddiannau drwy'r gyflogres

Os ydych wedi cofrestru ar-lein ar neu cyn 5 Ebrill 2019, ac rydych yn defnyddio'r broses Talu Buddiannau drwy'r Gyflogres, bydd yn rhaid i chi anfon:

- ffurflen P11D ar gyfer buddiannau nad ydych wedi'u talu drwy'r gyflogres
- ffurflen P11D(b) i roi gwybod i ni am CYG Dosbarth 1A y Cyflogwr sy'n ddyledus ar yr holl fuddiannau (**gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u talu drwy'r gyflogres**).

Bydd yn rhaid i chi hefyd roi llythyr i'ch cyflogeion yn rhoi gwybod iddynt pa fuddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres, a beth yw swm y buddiannau.

Os na wnaethoch gofrestru ar-lein ar neu cyn 5 Ebrill 2019 ar gyfer talu buddiannau drwy'r gyflogres, bydd yn rhaid i chi anfon:

- ffurflen P11D ar gyfer yr holl fuddiannau rydych wedi'u rhoi i unrhyw gyflogeion, a
- ffurflen P11D(b) i roi gwybod i ni am CYG Dosbarth 1A y Cyflogwr sy'n ddyledus ar yr holl fuddiannau.

Os ydych wedi talu buddiannau drwy'r gyflogres mewn modd anffurfiol (heb gofrestru ar-lein), bydd yn rhaid i chi osod nodyn ar y ffurflenni P11D i ddangos pa fuddiannau sydd wedi'u talu drwy'r gyflogres. Ysgrifennwch ar bob P11D, nid dim ond ar un ohonynt neu ar y P11D(b).

Gallwch gofrestru ar-lein ar neu cyn 5 Ebrill 2020 i dalu buddiannau drwy'r gyflogres ar gyfer blwyddyn dreth 2020-2021 [Talu cyflogeion drwy'r gyflogres: buddiannau a threuliau trethadwy – GOV.UK](#). Os gwnewch hyn, ni fydd yn rhaid i chi gyflwyno ffurflen P11D ar gyfer 2020-2021, oni bai eich bod wedi dewis cael eich eithrio rhag talu drwy'r gyflogres unrhyw gyflogeion rydych wedi rhoi buddiannau iddynt, neu wedi dewis peidio â thalu drwy'r gyflogres yr holl fuddiannau rydych wedi'u rhoi i unrhyw gyflogeion.

Arolwg busnesau bach - dweud eich dweud wrth ABAB

Gwahoddir busnesau bach i rannu eu barn ar y system dreth drwy lenwi arolwg byr.

Mae'r arolwg gan y Bwrdd Cynghori Beichiau Gweinyddol (ABAB) ond yn cymryd rhyw 5 i 10 munud i'w lenwi ac mae [i'w gael yma](#).

Bydd gennych gyfle i ddweud eich dweud wrth ABAB tan **ddydd Gwener 21 Chwefror**. Bydd yr adborth yn helpu ABAB i gyflawni eu nod o wneud gwahaniaeth i fusnesau bach drwy weithio'n agos â CThEM i helpu i wneud treth yn haws, yn gyflymach ac yn symlach.

Mae aelodau ABAB yn annibynnol ac yn dod o ystod eang o fusnesau a phroffesiynau sy'n cynrychioli'r gymuned busnesau bach. Mae eu gwaith yn cynnwys gwrandao ar farn busnesau bach am eu profiad o'r system dreth.

Cyhoeddir canlyniadau'r arolwg ar GOV.UK yn ystod gwanwyn 2020, yn yr adroddiad dweud eich dweud wrth ABAB o'r enw Tell ABAB.

Ymwelwyr Busnes Tymor Byr

Nodyn atgoffa - Newidiadau i'r trefniadau arbennig o ran Ymwelwyr Busnes Tymor Byr (STBV) o dan Reoliad 141

Gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth am y newidiadau i'r trefniadau arbennig o ran Ymwelwyr Busnes Tymor Byr (STBV) o dan Reoliad 141 yn [rhifyn 80 o Fwletin y Cyflogwr](#).

Y tro diwethaf, rhoesom wybod i chi y byddem yn rhoi rhagor o wybodaeth i gyflogwyr nad ydynt yn rhan o'r trefniant arbennig presennol ac sydd â diddordeb ymuno Atodiad 8 o 6 Ebrill 2020 ymlaen.

Gallwn gadarnhau y bydd newidiadau i'r [PAYE81950](#) yn cael eu cyhoeddi i 6 Ebrill 2020. Bydd y dudalen yn amlinellu manylion y cynllun Atodiad 8, a bydd yn cynnwys ffurflen hawlio ar gyfer ymuno ag Atodiad 8 am y tro cyntaf. Yn anffodus, ni allwn dderbyn ceisiadau i ymuno ag Atodiad 8 cyn mis Ebrill 6 2020.

Os gwnaethoch ymuno â'r trefniadau arbennig presennol ar ôl 20 Awst 2019

Rydym wrthi'n adolygu cofnodion y cyflogwyr a ymunodd â'r trefniadau arbennig presennol ar ôl 20 Awst a byddwn yn eich gwahodd i Atodiad 8 yn y man.

Os gwnaethoch ymuno â'r trefniadau arbennig presennol cyn 20 Awst 2019

Rydym wedi ysgrifennu at bob cyflogwr sydd wedi bod â threfniadau arbennig presennol gan roi gwahoddiad iddynt wneud cais i ymuno ag Atodiad 8 o 6 Ebrill 2020.

Os ydym wedi ysgrifennu atoch ac nad ydych wedi ateb, gwnewch hynny nawr.

Os hoffech ymuno ag Atodiad 8, ticiwch y blwch “gwneud cais am drefniadau Atodiad 8 newydd”.

Os na hoffech ymuno ag Atodiad 8 a'ch bod yn dymuno dod â'r trefniadau arbennig presennol i ben, ticiwch y blwch “dod â'r trefniadau arbennig TWE presennol i ben”.

Sicrhewch eich bod yn ticio un blwch yn unig. Bydd ticio'r ddau flwch, neu ddim un ohonynt, yn arwain at oedi'ch cais.

Os gwnaethoch ymuno â'r trefniadau arbennig presennol cyn 20 Awst 2019 ond nad ydych wedi cael ein llythyr, [cysylltwch â ni](#) ar frys.

Beth i'w wneud os na hoffech ymuno ag Atodiad 8

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni er mwyn i ni allu cau eich cofnod yn gywir. Rydym wedi amgáu ffurflen gyda'n llythyr y gallwch ei dychwelyd i roi gwybod i ni na hoffech ymuno. Bydd yn rhaid i chi sicrhau hefyd eich bod yn pennu dyddiad dod i ben ar y Ffurflen Dreth olaf ar gyfer blwyddyn dreth 2019-2020.

Camau nesaf

Byddwn yn ateb eich cais i ymuno ag Atodiad 8 neu'ch cais i ddod â'r trefniadau arbennig presennol i ben erbyn mis Ebrill 2020.

Os hoffech ymuno ag Atodiad 8, byddwn yn symud y cynllun TWE arbennig presennol i Atodiad 8 yn awtomatig – mae hyn yn golygu y byddwch yn gallu cadw'ch cyfeirnod TWE arbennig presennol.

Dyddiadau pwysig

Mae'r dyddiadau cyflwyno a'r dyddiadau talu ar gyfer y trefniadau arbennig presennol yn parhau i fod fel a ganlyn yn ystod 2020 – 19 Ebrill ar gyfer cyflwyno, a 22 Ebrill ar gyfer talu.

Bydd y dyddiad cyflwyno a thalu estynedig, sef 31 Mai, ar gyfer Atodiad 8, yn dod i rym yn 2021.

Buddiannau Pitw

Cyflogwyr - gwnewch yn siŵr bod eich cyflogeion a chithau'n elwa, drwy roi'r rheolau ar waith yn gywir

Yn dilyn ein herthyglau blaenorol ynghylch Buddiannau Pitw, cawsom adborth defnyddiol, ac felly rydym yn meddwl y byddai o gymorth egluro sawl pwynt perthnasol ymhellach.

I grynhoi, mae'n rhaid bodloni amodau penodol cyn i'r eithriad treth hwn ddod yn berthnasol i fuddiant yr ydych yn ei roi i'ch cyflogai:

- Rhaid i gost y buddiant beidio â bod dros £50;
- Rhaid i'r buddiant beidio â bod yn arian parod neu'n daleb y gellir ei chyfnwid am arian;
- Ni ddylid rhoi'r buddiant fel rhan o drefniadau aberthu cyflog nac unrhyw ymrwymiad contractiol arall; ac
- Ni ddylid rhoi'r buddiant i gydnabod gwasanaethau penodol.

Wrth ystyried yr amodau hyn, mae'n bwysig cofio y dylid edrych ar bob achos yn ôl ei rinweddau neilltuol unigol, gan gynnwys ystyried y rheswm dros roi'r buddiant i'ch cyflogai.

Anrhegion pen-blwydd, Nadolig a thymhorol

Ar y cyfan, mae CThEM yn derbyn bod rhoi anrhegion pen-blwydd, Nadolig neu dymhorol ond yn digwydd o dro i dro mewn blwyddyn dreth. Gall anrhegion gael eu rhoi gan gyflogwr am resymau megis lles staff neu oherwydd digwyddiad penodol nad yw'n ymwneud â gwaith, ac felly nid yw anrhegion yn debygol o fod yn gontractiol.

Cyn belled â bod amodau'r eithriad yn cael eu bodloni, ni fydd y buddiant yn agored i dreth. Mae enghreifftiau i'w gweld yn yr arweiniad [EIM21865](#) ac [EIM21866](#).

Gweithio drwy egwyl ginio

Os caiff cinio ei ddarparu ar gyfer cyflogeion sydd wedi gweithio drwy eu hawr ginio, ni fydd yr eithriad yn berthnasol. Mae hyn oherwydd y byddai'r cinio'n cael ei ystyried yn gydnabyddiaeth o'r gwaith a wneir gan y cyflogeion.

Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fydd eithriad neu ddiwyddiad arall yn berthnasol. Er enghraifft, o dan Adran 317 o ITEPA 2003, gall yr eithriad ar gyfer prydau yn y gweithle fod yn berthnasol i gost y cinio, os caiff prydau am ddim neu brydau wedi'u sybsideiddio eu darparu i bob cyflogai ar ryw adeg, ac os yw holl amodau eraill yr eithriad yn berthnasol.

Disgwyliad dilys

Soniodd yr erthygl flaenorol am 'ddisgwyliad dilys' er mwyn eich helpu i gydnabod y buddiannau yr ydych chi fel cyflogwr yn eu rhoi, buddiannau y gallech, dros amser, orfod eu rhoi, neu y gallai'ch cyflogeion ddisgwyl eu cael. Roedd yr erthygl hefyd yn esbonio sut i ddelio â'r buddiannau hyn yn gywir at ddibenion treth.

Gall natur contractiol buddiannau newid dros amser, ac mae hyn yn fater o gyfraith cyflogaeth. Os bydd cyflogwr yn rhoi anrheg i gyflogai bob blwyddyn, er mwyn cydnabod digwyddiad nad yw'n ymwneud â gwaith megis pen-blwydd, y Nadolig neu achlysur tymhorol arall, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod gan y cyflogai hawl gontractiol iddi.

Fodd bynnag, os bydd cyflogwr yn rhoi'r un buddiant dro ar ôl tro yn ystod blwyddyn dreth, i'r pwynt lle mae'n rhesymol i gyflogai ei ddisgwyl yn rheolaidd, gall hyn godi disgwyliad dilys. Byddai'n rhaid ystyried y buddiant yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na'i ystyried yn gyfres o achosion ar wahân, a all fynd â'r buddiant hwnnw y tu allan i gwmpas yr eithriad ar gyfer buddiannau pitw.

Crynodeb

Wrth i chi ystyried rhoi'r eithriad hwn ar waith mewn perthynas â buddiant yr ydych chi yn ei roi i gyflogai, mae'n rhaid i chi ystyried pam bod y buddiant penodol dan sylw yn cael ei roi a meddwl yn ofalus a yw holl amodau'r eithriad wedi'u bodloni.

Os ydych chi yn ansicr a yw buddiant yn bodloni'r amodau ar gyfer yr eithriad treth incwm hwn, ewch i'r [Llawlyfr Incwm Cyflogaeth](#) (EIM21860 ymlaen), ac os ydych chi yn ansicr o hyd, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900.

Cerbydau allyriadau isel iawn a newidiadau ar eithriadau i dreth car cwmni - Atodiad Diesel

Yn [Rhifyn 81 o Fwletin y Cyflogwr](#) gwnaethom roi gwybod i chi am y newidiadau arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gerbydau Allyriadau Isel Iawn o 6 Ebrill 2020 ymlaen. Ailddarllenwch yr wybodaeth hon.

Sut mae hyn yn effeithio arnoch

Ni fydd unrhyw newid i'r ffordd rydych chi yn rhoi gwybod am eich data Treth Car Cwmni ar hyn o bryd. Er hynny, efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol.

Rhoi gwybod am gar cwmni newydd neu un sydd ar gael i unigolyn am y tro cyntaf yn ystod blwyddyn dreth 2020-2021

1. O 6 Ebrill 2020 ymlaen, bydd maes milltiroedd allyriadau sero newydd wedi'i nodi ar ffurflen P46(car). Os oes gan gar hybrid ffigur allyriadau CO₂ sy'n 1-50g/km, bydd yn rhaid i chi nawr nodi milltiroedd allyriadau sero'r car. Dyma'r pellter mwyaf mewn milltiroedd y mae'n bosibl gyrru'r car yn y modd trydan heb ailwefru'r batri.
2. Caiff y ffurflen P46 (car) ar-lein ei diweddarau gyda'r newidiadau. Ar gyfer ffurflenni P46 (car) ar bapur, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn llenwi'r fersiwn ddiweddaraf oherwydd efallai na fydd copïau hanesyddol yn cynnwys y maes milltiroedd allyriadau sero newydd. Bydd y rhain ar gael drwy eich ffordd arferol o 6 Ebrill 2020.

Talu buddiant car a buddiant tanwydd car cwmni drwy'r gyflogres drwy FPS

1. O 6 Ebrill 2020 ymlaen, os oes gan gar hybrid ffigur allyriadau CO₂ sy'n 1-50g/km, bydd yn rhaid i chi nawr nodi milltiroedd allyriadau sero'r car yn y maes newydd.

Ble i ddod o hyd i'r wybodaeth milltiroedd allyriadau sero ychwanegol:

Os ydych yn prydlesu'r cerbyd, dylech gael gafael ar yr eitem ddata newydd hon yn yr un ffordd a gewch eich data Treth Car Cwmni ar hyn o bryd gan y cwmni ceir ar brydles neu ddarparwr y fflyd.

Os ydych yn berchen ar y cerbyd, gallwch ddod o hyd i'r ffigur milltiroedd allyriadau sero ar Dystysgrif Cydymffurfiaeth y cerbyd.

Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael mewn amgylchiadau eithriadol, gallwch gael y ffigur milltiroedd allyriadau sero oddi wrth wneuthurwr y car. Nid yw CThEM yn cadw'r wybodaeth hon.

Gallai methu â chael gafael ar y data drwy'r ffynhonnell gywir arwain at gyfrifo buddiannau car cwmni yn anghywir.

Sylwer: Mae'n bosibl bod y milltiroedd allyriadau sero wedi'u harddangos fel 'amrediad trydan' ar y Dystysgrif Cydymffurfiaeth.

Os yw'r ffigur milltiroedd allyriadau sero yn cael ei arddangos ar y Dystysgrif Cydymffurfiaeth mewn cilomedrau, bydd angen trosi'r ffigur yn filltiroedd cyn diweddarau'r maes hwn ar y P46 (car), drwy'r gyflogres neu drwy roi'r ffigur i'ch cyflogai. Dylech dalgrynnu'r ffigur sydd wedi'i drosi i fyny i'r rhif cyfan agosaf.

Os ydych yn gwmni sy'n rhoi ceir ar brydles neu'n gwmni fflyd

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, bydd angen i chi ddarparu'r ffigur milltiroedd allyriadau sero i'ch cwsmeriaid fel rhan o unrhyw gyfran ddata Treth Car Cwmni sefydledig sydd gennych ar waith.

Wrth brynu cerbyd, dylech gael a chadw Tystysgrif Cydymffurfiaeth y car. Bydd gan y ddogfen hon yr wybodaeth milltiroedd allyriadau sero sy'n benodol i'r cerbyd.

Newidiadau ar eithriadau i dreth car cwmni - Atodiad Diesel

Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom eich hysbysu am newidiadau i Dreth Car Cwmni - Atodiad Diesel a sut y bydd ceir sy'n cwrdd â safon Ewro 6D nawr yn cael eu heithrio o'r tâl Atodiad Diesel cyfan.

Sut i roi gwybod am gar cwmni diesel wrth gyflwyno'ch ffurflen P11D

Wrth lenwi Adran F Car a Thanwydd Car o P11D 2019-20, bydd angen i chi ateb y cwestiwn 'math o danwydd neu bŵer a ddefnyddiwyd' gyda'r llythyren allweddol gywir:

- Bydd ceir sy'n cwrdd â safon Ewro 6D yn defnyddio llythyren tanwydd F
- Bydd ceir sydd ddim yn cwrdd â safon Ewro 6D yn defnyddio'r llythyren tanwydd D.

Bydd taflen Waith 2 a thaflen Waith 2b Tabl 1 yn cael eu diweddarau i gynnwys yr esboniad.

Sut i roi gwybod am geir cwmni diesel ar gyfer y gyflogres

Wrth dalu drwy'r gyflogres am fuddiannau car a thanwydd car, nid oes unrhyw ofyniad i lenwi P11D gan fod y buddiannau hyn wedi'u cynnwys yn y broses gyflogres.

Ar gyfer unrhyw dreuliau a buddiannau sydd ddim yn cael eu talu drwy'r gyflogres, dylid dilyn y drefn arferol o ran llenwi P11D.

Newidiadau i'r modd y caiff Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol eu trin ar gyfer cerbydau brys - trefniadau trosiannol yn dod i ben ar 6 Ebrill 2020

Yn dilyn newidiadau i'r ddeddfwriaeth ynghylch defnyddio asedion ym mis Ebrill 2017, cyflwynodd y llywodraeth drefniadau trosiannol er mwyn cyfrifo'r swm sy'n agored i dreth incwm ar gyfer y budd o gerbyd brys a ddarperir at ddefnydd preifat (heblaw'r hynny a amlinellir yn yr eithriad ar gyfer cerbydau brys) ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2020.

Roedd hyn yn golygu y gellid cyfrifo cyfwerth mewn arian parod y budd, a hynny ar gyfran cymhareb y cyfanswm o filltiroedd a deithiwyd am resymau heblaw busnes yn ystod y flwyddyn dreth berthnasol. Dyma nodyn i'ch atgoffa y bydd y trefniadau hynny'n dod i ben ar 6 Ebrill 2020, a bydd yn rhaid defnyddio'r rheolau arferol ar gyfer cyfrifo'r defnydd o ased o'r adeg honno ymlaen. Mae arweiniad ar gyfrifo'r buddiant hwn [ar gael ar GOV.UK](#).

Ni fydd hyn yn effeithio ar yr eithriad rhag treth incwm neilltuol ar gyfer cerbydau brys. Mae'r eithriad yn caniatáu defnydd preifat os yw wedi'i gyfyngu i gymudo cyffredin a chymudo ar alwad (gan gynnwys teithiau preifat a wneir wrth fod ar alwad).

Problemau ynghylch adnabod unigolion ar secondiad i'r DU ar y gyflogres, a hynny ar gam

Hoffem dynnu sylw at wall cyflogres cyffredin sy'n digwydd pan fydd unigolion y DU yn cael eu nodi fel unigolion ar secondiad i'r DU, a hynny ar gam. Yn aml, mae hwn yn gamgymeriad syml, a hynny o ganlyniad i dicio blychau yn anfwriadol a allai ymddangos fel pe bai eu bod yn berthnasol i rai unigolion.

Mae pob meddalwedd fasnachol y gyflogres yn wahanol, ac felly nid yw'r hyn sy'n ofynnol bob amser yn glir o'r cynllun.

Ar y gyflogres, mae pum opsiwn y dylid eu dewis dim ond os yw'r unigolyn wedi'i secondio i weithio yn y DU gan gwmni tramor:

- Ei fod yn bwriadu aros am fwy na 183 o ddiwrnodau
- Ei fod yn aros am lai na 183 o ddiwrnodau
- Ei fod yn gweithio yn y DU yn ogystal â'r tu allan iddi
- Ardal Economaidd Ewropeaidd
- EPM6.

Y gwall cyffredin yw bod yr opsiynau uchod yn cael eu dewis, gan eu bod yn ymddangos fel pe baent yn ymwneud ag unrhyw unigolyn. Fodd bynnag, maent ond yn berthnasol os yw'r cyflogai yn unigolyn ar secondiad i'r DU gan gyflogwr tramor.

Camgymeriad cyffredin yw nodi tic yn y blwch Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ar gyfer gweithwyr mudol, fel staff tymhorol mewn gwestai, casglwyr ffrwythau, ac ati.

Felly, hoffem atgoffa cyflogwyr i sicrhau eu bod yn dewis yr opsiynau hyn dim ond pan fydd y cyflogai yn unigolyn ar secondiad i'r DU gan gyflogwr tramor.

Tâl Cuddiedig

Adolygiad annibynnol o'r tâl ar fenthyciad: beth mae hyn yn ei olygu ar eich cyfer chi

Cyhoeddodd y llywodraeth [adolygiad annibynnol](#) o'r tâl ar fenthyciad ar 11 Medi 2019. Mae'r adolygiad [wedi dod i ben erbyn hyn](#), ac mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi'i [ymateb](#).

Roedd yr adolygiad yn argymhell nifer o newidiadau i gwmpas y tâl ar fenthyciad. Mae'r llywodraeth wedi derbyn y rhan fwyaf o'r rhain. Ceir rhagor o wybodaeth am y newidiadau a all effeithio arnoch yn ein [harweiniad sydd wedi'i gyhoeddi](#).

Rydym wedi anfon llythyrau i amlinellu sut y gall y rheolau newydd fod yn gymwys i gyflogwyr.

Os ydych yn cynnal sgysiau gyda ni ynghylch setlo, ac ni ddaeth y llythyr hwn i law, rhowch wybod i'ch cysylltiad arferol yn CThEM neu anfonwch e-bost i ca.admin@hmrc.gov.uk. Os nad ydych yn cynnal sgysiau gyda ni ynghylch setlo, ac ni ddaeth y llythyr hwn i law, neu os oes gennych gwestiynau am sut y gall y newidiadau i'r tâl ar fenthyciad effeithio arnoch, ffoniwch 03000 599110. Byddwn yn falch i ateb eich cwestiynau.

Cyfrif Treth Busnes - data 2013-2014 i gael eu dileu

Ar hyn o bryd, mae'r Cyfrif Treth Busnes yn dangos data o ran rhwymedigaethau a thaliadau cyflogwyr ar gyfer 2013-2014 ymlaen.

Yn unol â gwasanaethau ar-lein eraill CThEM, bydd hyn yn cael ei gyfyngu i'r canlynol:

- y flwyddyn dreth bresennol yn ogystal â'r chwe blynedd flaenorol, a
- thaliadau agored ar gyfer blynnyddoedd cynharach.

Mae'r newid yn golygu na fydd data ar gyfer 2013-2014 yn cael eu dangos ar y Cyfrif Treth Busnes os yw'r holl rwymedigaethau ar gyfer y flwyddyn honno wedi'u clirio.

Cymerwch y cyfle i gymryd copi o gofnodion 2013-2014 os ydych am gadw copi.

Mae'n bosibl y bydd data ar gyfer 2013-2014 yn cael eu dileu ym mis Gorffennaf 2020.

Cofrestru fel cyflogwr

Fel arfer, bydd angen i chi gofrestru fel cyflogwr gyda CThEM pan fyddwch yn dechrau cyflogi staff neu'n defnyddio isgontractwyr ar gyfer gwaith adeiladu. Mae'n rhaid i chi gofrestru cyn y diwrnod cyflog cyntaf. Unwaith y bydd CThEM wedi prosesu'ch cais, mae'n cymryd pum diwrnod gwaith i gael eich Cyfeirnod TWE y Cyflogwr newydd. Ni allwch gofrestru fwy na deufis cyn i chi ddechrau talu pobl. Os hoffech gofrestru busnes a fydd yn cychwyn ar neu ar ôl 6 Ebrill, a'ch bod yn rhoi gwybod i ni yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol, ni fydd CThEM yn gallu dechrau prosesu'ch cais tan 6 Ebrill, neu ar ôl hynny. Gallai hyn olygu oedi cyn i chi gael eich manylion cofrestru.

Gall y rhan fwyaf o gyflogwyr newydd gofrestru ar-lein. Er mwyn cael gwybod a oes angen i chi gofrestru a sut i wneud hynny, [ewch i GOV.UK](#).

Os gwnaethoch ymrestru gyda gwasanaeth TWE Ar-lein CThEM wrth gofrestru fel cyflogwr, bydd gennych gyfrif ar-lein yn barod.

Os nad oes gennych gyfrif TWE Ar-lein, bydd angen eich cyfeirnod TWE a chyfeirnod eich Swyddfa Gyfrifon arnoch er mwyn cofrestru. Pan gewch y rhain, [ewch i GOV.UK](#).

I dalu cyflogai cyn i chi gael eich Cyfeirnod TWE y Cyflogwr, dylech wneud y canlynol:

1. Rhedeg y gyflogres
2. Storio'ch Cyflwyniad Taliadau Llawn
3. Anfon [Cyflwyniad Taliadau Llawn hwyr](#) i CThEM.

Nodyn atgoffa i gyflogeion ddiweddarau eu Cyfrif Treth Personol

A wnewch chi atgoffa'ch cyflogeion i fewngofnodi i'w [Cyfrif Treth Personol](#) (PTA) a diweddarau eu hincwm disgwylidig, gan gynnwys unrhyw fonysau, goramser neu incwm ychwanegol posibl o fewn y flwyddyn dreth gyfredol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod CThEM yn gwybod am y cyflog amcangyfrifedig diweddaraf. Hefyd, a wnewch chi atgoffa'ch cyflogeion bod Cyfrif Treth Personol yn gallu eu helpu i wirio eu cofnodion treth ar-lein a rheoli eu manylion. Gall cyflogeion gofrestru ar gyfer Cyfrif Treth Personol yn hawdd ar GOV.UK.

Mesur cyllideb - Tystebau Chwaraeon a Thaliadau Terfynu

Daw rhwymedigaethau Dosbarth 1A ar Dystebau Chwaraeon a Thaliadau Terfynu i rym ar 6 Ebrill 2020

Cafodd Deddf Cyfraniad Yswiriant Gwladol (Dyfarniad Terfynu a Thysteb Chwaraeon) 2019 ('y Ddeddf') Gydsyniad Brenhinol ar 24 Gorffennaf 2019. Creodd y Ddeddf hon dâl cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1A newydd ar ddyfarniadau terfynu dros £30,000 a thaliadau o dystebau chwaraeon dros £100,000.

Dyfarniadau terfynu

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, bydd y Ddeddf yn cyflwyno rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1A newydd ar ddyfarniadau terfynu trethadwy "arian parod" (neu gyfwerth mewn arian parod) nad ydynt yn gontractiol dros drothwy o £30,000, ac nad ydynt eisoes wedi ysgwyddo rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1 fel enillion.

Bydd hyn yn golygu bod taliadau terfynu'n cael eu trin yn debygach i dreth incwm a CYG.

Bydd y cyflogwr yn agored i'r rhwymedigaeth newydd hon, a bydd yn daladwy ar yr un gyfradd ganrannol CYG Dosbarth 1A (13.8% ar hyn o bryd) sy'n berthnasol i'r rhwymedigaethau CYG Dosbarth 1A presennol a godir ar fuddiannau (BiKs).

Fodd bynnag, yn wahanol i'r rhwymedigaethau CYG Dosbarth 1A sy'n cael eu codi ar fuddiannau, ni fydd y rhwymedigaeth newydd hon yn daladwy drwy'r broses PD11(b) blynyddol o ran talu/rhoi gwybod, ac ni fydd rhaid rhoi gwybod amdani drwy'r dull hwn ychwaith. Yn hytrach, o 6 Ebrill 2020 ymlaen, bydd yn rhaid talu a rhoi gwybod am rwymedigaethau CYG Dosbarth 1A sy'n deillio o ddyfarniadau terfynu ac sy'n cynnwys taliadau arian parod a/neu gyfwerth ag arian parod, drwy'r broses TWE/ Gwybodaeth Amser Real (RTI).

Bydd proses bresennol y P11D(b) ar gyfer rhoi gwybod yn cael ei chadw ar gyfer cyflogwyr sy'n rhoi gwybod am rwymedigaethau CYG Dosbarth 1A sy'n deillio o fuddiannau, gan gynnwys rhoi gwybod am unrhyw fuddiannau a roddwyd i gyflogai cyn ac ar ôl i'w gyflogaeth ddod i ben (fel rhoi car cwmni o hyd).

Ni fydd y rhwymedigaeth Dosbarth 1A newydd hon yn berthnasol i unrhyw ddyfarniadau terfynu a delir ar ôl 5 Ebrill 2020 mewn perthynas â chyflogaeth a ddaeth i ben cyn 6 Ebrill 2020.

Tystebau chwaraeon

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, bydd unrhyw daliadau tysteb chwaraeon sydd ddim yn gcontractiol neu sy'n anarferol ac sy'n fwy na £100,000 ac a delir i chwaraewr chwaraeon gan bwyllgor tysteb annibynnol, yn agored i rwymedigaeth Dosbarth 1A CYG. Mae hyn yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd ym Mil Cyllid 2016 sy'n nodi, y tu hwnt i bob amheuaeth, sut i drin tystebau chwaraeon o ran treth.

Bydd y rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1A newydd yn cael ei chodi ar y pwyllgor tystebau chwaraeon. Rheolydd y pwyllgor tystebau fydd yn gyfrifol am roi gwybod am y rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1A honno a'i thalu i CThEM.

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, bydd yn rhaid talu a rhoi gwybod am y rhwymedigaethau Dosbarth 1A newydd hyn drwy'r broses TWE/Gwybodaeth Amser Real (RTI).

Os yw'r pwyllgor tystebau chwaraeon, yn ystod blwyddyn dystebau'r mabolgampwr, yn rhoi buddiant (fel car) i'r mabolgampwr, bydd swm y buddiant sy'n drethadwy hefyd yn agored i rwymedigaeth CYG Dosbarth 1A, a bydd yn rhaid i'r pwyllgor tystebau chwaraeon ei thalu a rhoi gwybod amdani drwy'r broses P11D(b) bresennol.

Ni fydd y rhwymedigaeth Dosbarth 1A newydd hon yn berthnasol i dystebau chwaraeon a ddatganwyd yn gyhoeddus cyn 6 Ebrill 2020.

Yr hyn y mae angen i gyflogwyr a phwyllgorau tystebau chwaraeon ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer rhoi gwybod am y rhwymedigaethau CYG Dosbarth 1A newydd drwy RTI

Cyn 6 Ebrill 2020, mae'n rhaid i gyflogwyr sicrhau bod eu systemau cyflogres wedi'u diweddarau er mwyn iddynt allu talu a rhoi gwybod am y rhwymedigaethau CYG Dosbarth 1A newydd sy'n deillio o ddyfarniadau terfynu mewn amser real.

Bydd hefyd yn rhaid i Bwyllgorau Tystebau Chwaraeon annibynnol sicrhau fod gan ba bynnag system gyflogres y maent yn ei defnyddio'r gallu i dalu a rhoi gwybod am y rhwymedigaethau CYG Dosbarth 1A newydd mewn amser real.

Y diweddaraf am Daliadau Terfynu: Diweddariad i arweiniad EIM12965

Diweddarwyd arweiniad [EIM12965](#) i egluro y gallai taliadau iawndal fod yn drethadwy o dan ddarpariaethau heblaw s.401 ITEPA 2003 o dan rai amgylchiadau.

Roedd geiriad blaenorol y canllaw yn nodi mai dim ond o dan s.401 ITEPA 2003 y gall taliadau iawndal am wahaniaethu fod yn drethadwy. Mae hyn yn anghywir. Mae CThEM bob amser wedi datgan y gallai rhai mathau o daliad iawndal fod yn drethadwy o dan adrannau eraill o ITEPA 2003. Er enghraifft, gall iawndal, a delir mewn perthynas ag achos sy'n ymwneud â honiad o dâl anghyfartal, fod yn drethadwy fel enillion yn unol â s.62 ITEPA 2003.

Mae geiriad blaenorol yr arweiniad ar gael mewn lleoliad newydd, sef [EIM12966](#). Ni ddylid dibynnu arno am daliadau a wneir ar ôl 5 Ebrill 2021.

Newyddion gan y Rheoleiddiwr Pensiynau

Pensiynau'r Gweithle

Mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn cynilo arian i'w pensiynau gweithle diolch i'r system cofrestru awtomatig (AE). Mae cyflogwyr wedi doddi 10 miliwn o aelodau staff i mewn i gynlluniau pensiwn ers i'r system cofrestru awtomatig ddechrau, sy'n rhyfeddol – ond nid yw eu dyletswyddau cyfreithiol yn gorffen yno.

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y swm cywir o gyfraniad pensiwn yn cael ei dalu i mewn i gynllun yn brydlon.

Nid yw'n ddigon i gofrestru'ch cyflogeion ar gyfer cynllun a stopio yno – mae angen i chi barhau i dalu bob tro yr ydych yn rhedeg y gyflogres. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid cyfrannu o leiaf 3% o'r enillion cymwys at y cynllun. Gallwch dalu mwy na hyn os dymunwch, ond ni allwch dalu llai na hynny. Mae angen i chi nodi taliadau hwyr neu anghywir yn gynnar – bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau'n cymryd camau os byddwch yn methu â chydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol parhaus, ac efallai y bydd angen i chi ôl-ddyddio unrhyw daliadau a gollwyd.

[Ewch i wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Helpu'ch cyflogeion i osgoi sgamiau pensiwn

Mae sgamiau pensiwn yn bellgyrhaeddol. Y llynedd, collodd pobl £82,000 yr un ar gyfartaledd. I rai, dyna bob ceiniog o'u cynilion.

Gallai'ch cyflogeion fod mewn perygl. Mae ymchwil yn dangos bod hyd at bum miliwn o bobl sy'n cynilo arian mewn perygl o gael eu twyllo gan un o'r tactegau sgam mwyaf cyffredin.

Gyda diffyg gwybodaeth am bensiynau a hanner o'r bobl sy'n cynilo yn edrych at eu cyflogwr am gyngor am bensiynau yn gyntaf – a ydych yn edrych allan amdanynt?

Sut y gallwch helpu

Gallwch ddiogelu'ch cyflogeion drwy eu helpu i ddod i adnabod sgam o'r cychwyn.

Fel rhan o'r ymgyrch cenedlaethol, ScamSmart, – a reolir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol – gallwch wneud y canlynol:

- lawrlwytho poster i osod yn eich swyddfa
- rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- postio erthyglau newyddion ar eich mewnwrwyd neu gylchlythyrau staff.

Peidiwch â gadael i sgamiwr fanteisio ar ymddeoliad eich cyflogeion. Helpwch nhw i fod yn wyliadwrus a chofio gwirio pwy maen nhw'n delio ag ef bob amser.

[Rhagor o wybodaeth.](#)

Sut mae gweithlu sy'n heneiddio'n effeithio arnoch chi?

Wrth i'r gweithlu heneiddio, mae cyflogwyr yn fwyfwy am gadw sgiliau gwerthfawr eu gweithwyr hŷn. Gyda chymaint o bobl yn gadael y gweithlu cyn iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, mae'n bwysig bod cyflogwyr yn cynnig cyfleoedd, megis ailhyfforddiant a gweithio hyblyg, er mwyn eu cadw.

Mae cyflogwyr sy'n cael eu cydnabod am ddilyn arfer da yn deall yr achos busnes ar gyfer gweithlu cymysg o ran oedran. Maent yn gwybod beth yw oedran eu gweithlu, yn siarad gyda'u gweithwyr er mwyn nodi problemau, ac yn cyflwyno ymyriadau i helpu i gadw, ailhyfforddi a recriwtio gweithwyr hŷn.

Ymhle y gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Bydd y pecyn cymorth 'Look, Listen, Act' yn rhoi cymorth ac arweiniad i gyflogwyr wrth iddynt ddechrau dilyn arferion cynhwysiant ar sail oedran yn y gweithlu: I fynd gyda'r pecyn cymorth, mae yna fideo sy'n ceisio chwalu'r chwedlau a'r ofn sydd gan rai cyflogwyr am gael sgysiaau ynghylch gyrfaeodd gyda'u gweithwyr hŷn. Mae'r pecyn cymorth ar gael ar y [wefan Busnes yn y Gymuned](#).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm 'Fuller Working Lives' yn [DWP: FULLER.WORKINGLIVES@DWP.GOV.UK](mailto:DWP:FULLER.WORKINGLIVES@DWP.GOV.UK) neu cysylltwch â ni ar [LinkedIn](#).

Newidiadau sydd ar y gweill i Gyfraith Cyflogaeth

Y cyfnod cyfeirio ar gyfer tâl gwyliau

Mae gan bron pob gweithiwr hawl i 5.6 wythnos o wyliau â thâl bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr asiantaeth, gweithwyr gydag oriau afreolaidd a gweithwyr ar gcontractau dim oriau. Pan fydd gan weithiwr oriau penodol a'i fod yn cael cyflog, mae'n parhau i gael ei gyflog tra ei fod ar wyliau. Fodd bynnag, pan fydd gweithwyr yn gweithio oriau goramser yn rheolaidd, neu os oes ganddynt oriau amrywiol, dylid cyfrifo eu tâl gwyliau gan ddefnyddio cyfnod cyfeirio.

Ar hyn o bryd, dylai cyflogwyr edrych yn ôl 12 wythnos a chyfrifo'r tâl wythnosol cyfartalog a gafwyd am yr amser hwnnw. Mae wythnosau lle na wnaed unrhyw waith, ac felly lle nad oedd unrhyw dâl wedi'i ennill, yn cael eu diystyru. Yna, bydd y cyflogwr yn edrych yn ôl wythnos arall nes bod 12 wythnos o dâl y gweithiwr yn cael eu cyfrif. Mae arweiniad manwl ar y rheolau presennol ar gael ar [GOV.UK](#).

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, mae'r cyfnod cyfeirio yn cael ei ymestyn. Yn lle edrych yn ôl 12 wythnos, mae angen i gyflogwyr gyfrifo'r cyfartaledd dros gyfnod o 52 wythnos. Gan fod wythnosau di-dâl yn dal i gael eu heithrio, gall hyn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr edrych yn ôl dros flwyddyn i'r gorffennol. Er mwyn osgoi gorfod mynd yn ôl am gyfnod amhenodol, mae terfyn o 104 wythnos o ddata yn cael ei gyflwyno; sef dwy flynedd lawn. Os, ar ôl hynny, nid oes 52 wythnos o ddata ar gael o hyd, mae'r cyflogwr yn defnyddio cyfartaledd o'r hyn sydd ganddo. E.e. os yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae'r gweithiwr wedi gweithio 46 wythnos, defnyddir y data o'r wythnosau hynny. Os yw'r gweithiwr wedi gweithio 60 wythnos yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, dim ond y 52 wythnos ddiweddaraf a fyddai'n cael eu cynnwys yn y cyfnod cyfeirio.

Mae'r newidiadau hefyd yn egluro'r hyn y mae cyflogwyr yn ei wneud gyda gweithwyr newydd; os nad ydynt wedi gweithio 52 wythnos, dylent ddefnyddio'r data tâl sydd ar gael yn ôl i'w dyddiad cychwyn. Er enghraifft, os yw gweithiwr wedi bod yn gweithio gyda'i gyflogwr am 14 wythnos, yna'n mynd ar wyliau, dylai'r cyflogwr ddefnyddio'r 14 wythnos o ddata sydd ar gael.

Mae rhagor o wybodaeth am dâl gwyliau a hawliau [ar gael ar GOV.UK](#) neu ar [wefan Acas](#).

Datganiadau ysgrifenedig

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi deddfu i ymestyn yr hawl i bob gweithiwr gael datganiad ysgrifenedig. Bydd hyn yn rhoi'r un eglurder i weithwyr â chyflogeion ynghylch telerau ac amodau eu cyflogaeth newydd. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi deddfu i wneud y datganiad ysgrifenedig yn berthnasol o'r diwrnod cyntaf i bob unigolyn sydd â hawl i ddatganiad ysgrifenedig. Yn gyntaf, mae hyn yn golygu y bydd ganddynt hawl i gael 'prif ddatganiad' y datganiad ysgrifenedig erbyn diwrnod cyntaf eu swydd newydd fan bellaf, lle ar hyn o bryd, mae gan y cyflogwr gyfnod o ddau fis i roi'r datganiad.

Yn ail, ni fydd unrhyw gyfnod cymwys o gyflogaeth. Ar hyn o bryd, dim ond os maen nhw wedi cael eu cyflogi'n ddi-dor am o leiaf mis y mae gan gyflogeion hawl i ddatganiad ysgrifenedig.

Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn ehangu'r wybodaeth y mae'n rhaid i gyflogwyr ei chynnwys mewn datganiad ysgrifenedig o'r diwrnod cyntaf (gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol a roddir e.e. drwy lawlyfrau staff ar absenoldeb oherwydd salwch a thâl neu fathau eraill o absenoldeb â thâl). Mae'r wybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys yn y prif ddatganiad yn cynnwys gwybodaeth newydd a gwybodaeth sydd eisoes yn ofynnol, ond bod modd eu rhoi ar wahân ar hyn o bryd: mewn llawlyfr staff er enghraifft.

Bydd y ddwy set o newidiadau yn dod i rym o 6 Ebrill 2020 ymlaen. Bydd y canllawiau diweddaraf ar gael ar gov.uk o 6 Ebrill 2020 ymlaen.

Llyfryn 480 ar-lein

Mae CThEM wedi cyhoeddi fersiwn ar-lein o [lyfryn 480](#).

Mae'r fersiwn ar-lein hon, sydd ar ffurf HTML, yn bodloni safonau hygyrchedd GOV.UK, ac mae'n welliant sylweddol ar fersiwn PDF blaenorol y llyfryn.

Ni fu unrhyw newidiadau i'r testun yn y llyfryn.

Twlsyn digidol newydd gan yr Adran ar gyfer Masnach Ryngwladol

Mae'r Adran ar gyfer Masnach Ryngwladol wedi lansio twlsyn digidol newydd i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar fusnesau i allforio nwyddau o farchnad y DU. Mae'r twlsyn rhad ac am ddim, o'r enw '*Check How to Export Goods*', wedi'i lansio ar GOV.UK.

Mae'r twlsyn yn helpu unrhyw fusnes, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i fasnachu gyda dros 160 o farchnadoedd drwy ddarparu gwybodaeth ac arweiniad cyfoes ar yr hyn y mae angen iddynt ei wybod a'i wneud er mwyn allforio nwyddau i wlad yn yr UE neu i weddill y byd.

Mae busnesau'n mewnbynnu eu cod nwyddau cynnyrch a'u cyrchfan allforio, ac yna gallant gael gafael ar wybodaeth ar lefel cynnyrch a gwybodaeth gwlad-benodol gan gynnwys tollau, rheoliadau, gweithdrefnau tollau a chytundebau masnach rhwng y DU a marchnadoedd eraill.

Mae'r twlsyn yn arbed amser drwy ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i fasnachu nwyddau mewn un lle.

Mae '*Check How to Export Goods*' yn cynnwys gwybodaeth allweddol am y canlynol:

- Codau nwyddau
- Tollau, trethi, costau a chwotâu
- Rheolau o ran tarddiad
- Sut i symud eich nwyddau o'r DU
- Sut i symud eich nwyddau i wledydd/cyrchfannau eraill.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, ac mae ar gael nawr ar [GOV.UK](#).

Am ragor o wybodaeth a chynghor ar allforio, ewch i great.gov.uk.